# Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd** | Cyfarwyddwr  Pobl a Diwylliant |
| **Adran** | Corfforaethol |
| **Teitl Swydd Rheolwr Llinell** | Prif Weithredwr |
| **Rheolwr Llinell** | Swyddog Pobl a Diwylliant<br>Rheolwr Pobl a Diwylliant |
| **Lleoliad** | Un o swyddfeydd S4C yng Nghaerfyrddin/Caernarfon/Caerdydd/ Hybrid.<br>Bydd disgwyliad ichi fynychu swyddfeydd eraill S4C o bryd i'w gilydd. |
| **Teithio** | Bydd teithio achlysurol yn rhan o'r swydd, fel rheol o fewn y Deyrnas Unedig. |

**PWRPAS Y SWYDD**

Yn aelod o'r Tîm Rheoli mae gennych rôl allweddol yn datblygu, cyfleu a sicrhau gwireddiad strategaeth, gweledigaeth a gwerthoedd S4C.

Nod y Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant yw meithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol, datblygu diwylliant sefydliadol cryf, ac alinio arferion Adnoddau Dynol ag amcanion S4C.

Yn arwain ein strategaeth a swyddogaeth Pobl a Diwylliant, byddwch yn arwain ac yn rheoli ystod o weithgareddau busnes gan gynnwys mentrau ymgysylltu â cyflogeion, rheoli a dyblygu talent a pherfformiad, recriwtio a chadw talent, lles, cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth y gweithlu a gweithlu'r dyfodol, tâl, buddion, polisïau cyflogaeth a newid sefydliadol.

Yn cydbwyso blaenoriaethau strategol a gweithredol ein Pobl a'n Diwylliant i greu amgylchedd sy'n sbarduno'r perfformiad gorau posibl, byddwch yn cynghori a chydweithio gyda'n Harweinwyr a Rheolwyr i sicrhau ein bod yn cyflawni ein strategaeth drwy ein Pobl a'n Diwylliant ac yn gweithredu yn unol â chyfraith cyflogaeth ac arfer da.

**PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

Arwain ar a pharatoi gwasanaeth Adnoddau Dynol rhagweithiol a chynhwysfawr i arweinwyr, rheolwyr a staff S4C, gan gynnwys:

- Creu a gwireddu strategaeth ar gyfer ein Pobl a'n Diwylliant yn y gweithlu.
- Arwain ar ddatblygu a chyflenwi model gweithredu Pobl a Diwylliant cadarn er mwyn gyrru mentrau strategol ac ateb gofynion gweithredol 'adnoddau dynol'.
- Arwain ar feithrin amgylchedd gweithio cadarnhaol i hybu parch, cydraddoldeb a chynhwysiant gan sicrhau fod amrywiaeth yn ganolog i ddiwylliant S4C.
- Arwain ar y gwaith o sicrhau lles ein staff er mwyn sicrhau eu bod nhw'n taro cydbwysedd iachus rhwng gwaith a bywyd personol ac yn derbyn cefnogaeth bwrpasol gan eu rheolwyr llinell.
- Arwain ar sbarduno diwylliant o berfformiad uchel, gyda phobl sydd wedi ymgysylltu yn gadarnhaol er mwyn cyflawni strategaeth S4C drwy ein pobl.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

- Arwain a dylanwadu rhanddeiliaid traws-swyddogaethol ar faterion sy’n ymwneud â ‘newid rheoli’ o safbwynt ein Pobl a’n Diwylliant gwaith.

- Cydweithio, cynghori a dylanwadu i sbarduno newidiadau systemig yn ein sefydliad drwy ein harweinyddiaeth.

- Gweithio'n agos gyda'n Tîm Rheoli a rheolwyr llinell i greu ymagwedd a sgiliau cadarn a theg at lwybr gyrfa ein Pobl o safbwynt recriwtio a dethol, hyfforddi a datblygu, olyniaeth, perfformiad, ymgysylltu a chadw i gyd-fynd â gwerthoedd S4C.

- Datblygu a gweithredu strategaethau ymgysylltu â chyflogai a gweithio gyda rheolwyr a chynrychiolwyr staff i’w hymgorffori o fewn S4C.

- Yn cydweithio gyda Phenaethiaid Adrannau/Arweinwyr tîm, eu cynghori a chydlynu'r gwaith o asesu a chreu cynllun hyfforddi corfforaethol a phersonol a chynllun prentisiaeth, ynghyd â chynllun datblygu olyniaeth a rheoli talent fydd yn cefnogi strategaeth S4C.

- Cynghori a chefnogi'r Tîm Rheoli a Phenaethiaid Adrannau ar faterion yn ymwneud â’r gweithlu a datblygu strwythurau sefydliadol, a pharatoi ystadegau ac adroddiadau perthnasol yn ôl y gofyn.

- Paratoi cefnogaeth, ac annog rheolwyr fel eu bod yn arwain a datblygu eu staff yn adeiladol ac effeithlon er mwyn sicrhau timau sy'n perfformio i safon uchel.

- Datblygu a chynnal perthynas effeithiol gyda rheolwyr wrth ddarparu cyngor arbenigol strategol a gweithredol ar bob agwedd o gyflogaeth gan gynnwys recriwtio a dethol, lles, ymsefydlu, perfformiad, salwch tymor hir a byr, iechyd galwedigaethol, absenoldeb mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadu/rhiant a rennir, gweithio hyblyg, disgyblaeth, cwyno, ailstrwythuro, TUPE, diswyddo, ac yn y blaen.

- Datblygu a gwireddu cynllun hyfforddi corfforaethol priodol,  ac mewn partneriaeth gyda Rheolwyr Llinell sicrhau datblygiad proffesiynol pwrpasol er mwyn sicrhau bod S4C yn cyflawni ei strategaeth a bod ein gweithlu yn datblygu yn bwrpasol ar gyfer y dyfodol.

- Cynghori a chefnogi staff gan sicrhau eu bod yn gallu derbyn cefnogaeth bwrpasol yn y gwaith gan y tîm Pobl a Diwylliant.

- Meithrin cysylltiadau gwaith da gyda chynrychiolwyr undebau a chynrychiolwyr staff gan gynrychioli S4C mewn trafodaethau perthnasol.

- Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau sy’n ymwneud a Phobl a Diwylliant yn esblygu a datblygu yng ngoleuni deddfwriaethol, arfer da a newidiadau trefniadaethol.

- Yn gyfrifol am y broses cyflogau, rheoli’r cytundeb gyda’r Darparwyr cyflogau sydd wedi allanoli, gan sicrhau fod manylion cywir yn cael eu trosglwyddo iddynt yn brydlon.

- Cydweithio gyda’r Prif Swyddog Cyllid er mwyn sicrhau fod y wybodaeth a threfniadau statudol yn cael eu cyflawni.

- Rheoli’r cytundeb gyda’r Ymgynghorwyr pensiynau sydd wedi allanoli, gan sicrhau fod manylion cywir yn cael eu trosglwyddo iddynt yn brydlon.

- Paratoi adolygiadau a chyngor wedi ei seilio ar ymchwil ynglŷn â chyflogau a buddiannau. Bod yn gyfrifol am weithredu’r Panel Adnoddau.

- Sicrhau arweinyddiaeth, cefnogaeth a datblygiad y tîm Pobl a Diwylliant, fod prosesau effeithlon mewn lle, a bod yn gyfrifol am reolaeth a rhedeg gwaith y tîm o fewn y gyllideb briodol.

- Arwain y Grŵp Cyflawn Hyfforddiant Sector er mwyn sicrhau llwyddiant strategaeth hyfforddiant sector S4C.

- Sicrhau fod gwybodaeth berthnasol, gywir ac amserol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau a'r Bwrdd Unedol gan baratoi a chyflwyno adroddiadau ac argymhellion.

- Sicrhau fod adroddiadau statudol ac eraill sy'n ymwneud â gwaith yr adran yn cael eu paratoi a' cyflwyno yn gywir ac ar amser.

Fel Aelod o'r Tim Rheoli ac Arweinydd mae gennych rôl allweddol yn datblygu, cyfleu a sicrhau gwireddiad strategaeth, gweledigaeth a gwerthoedd S4C.

Byddwch yn:

- Sicrhau diwylliant gwaith cadarnhaol a chynhwysfawr sy'n galluogi S4C i ddenu, ysgogi, datblygu a chadw gweithlu ymgysylltiedig sy'n arloesol, yn atebol, ac yn perfformio ar lefel uchel.

- Gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol, sy'n datblygu gwasanaethau gwych i'n gwylwyr ar bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol, a chynhwysfawr sy'n trin pawb gyda pharch, ac yn byw a hybu gwerthoedd S4C.

- Paratoi arweiniad strategol ar drawsnewidiad corfforaethol, ac yn sicrhau fod datblygiadau gwasanaethau yn cyflawni'r strategaeth wrth sicrhau gwerth am arian ac yn rheoli risg yn bwrpasol.

- Datblygu perthnasau gyda rhanddeiliaid strategol a chyllidwyr er mwyn datblygu a hybu ein gwasanaethau ac yn gyfrifol am gynrychioli S4C mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ynghyd a gweithredu fel ei llysgennad.

- Gyfrifol am sicrhau bod eich adrannau yn gweithio yn unol â holl bolisïau a gweithdrefnau S4C gan gynnwys Polisïau Iechyd a Diogelwch, Diogelu data, Cyllid, Rheoli Risg, Cyfle Cyfartal & Chynhwysiant a Materion Cyflogaeth.

- Sicrhau rheolaeth ariannol gadarn ar draws eich maes.

- Sicrhau cyfathrebu clir, effeithiol, pwrpasol ac amserol i'ch adran ac ar draws S4C fel bo'n briodol.

- Adolygu, monitro a gwirio ansawdd gwaith staff dan eich goruchwyliaeth gan roi targedau ac arweiniad clir a chefnogaeth bwrpasol er mwyn sicrhau safon a datblygiad perfformiad.

- Sicrhau lles y staff dan eich goruchwyliaeth gan sicrhau eu bod nhw'n taro cydbwysedd iachus rhwng gwaith a bywyd personol, ac yn cymryd cyngor pwrpasol gan Adnoddau Dynol fel bo'r angen.

- Byw a hybu gwerthoedd S4C.

- Dirprwyo ar ran y Prif Weithredwr fel bo angen.

- Mynychu ac yn adrodd i'r Bwrdd Unedol ar ddatblygiad y strategaeth.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill.

Byddwch hefyd yn:

- Ymwybodol o strategaeth S4C, a sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddilyn ein holl bolisïau a gweithdrefnau yn ôl y gofyn sy'n cynnwys gweithio o fewn canllawiau Iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gwarchod data, canllawiau ariannol ac yn y blaen.

- Cyfrannu mewn ffordd bositif tuag at ddiwylliant a chyflawni strategaeth S4C.

- Cydweithio gyda'ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.

- Cyfrannu at a chefnogi defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

- Sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol, sy'n datblygu gwasanaethau gwych i'n gwylwyr ar bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysfawr sy'n trin pawb gyda pharch.

## Manyleb Person

| Nodwedd | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Cymhwyster CIPD lefel 7 neu gyfatebol. | Gradd |
| **Profiad** | Profiad 5+ mlynedd ddofn o weithio ym maes Adnoddau Dynol yn cyfuno gweithio ar ystod eang o faterion gweithredol AD tra hefyd yn gweithio ar lefel strategol.<br><br>Profiad o weithio gyda thimau i drawsnewid amcanion newydd y sefydliad.<br><br>Profiad dwfn o baratoi cyngor AD ar lefel uwch.<br><br>Profiad o ddatblygu strategaethau Pobl a Diwylliant yn llwyddiannus. | Profiad ar lefel Cyfarwyddwr. |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Gwybodaeth arbenigol o Adnoddau Dynol.<br><br>Cefndir o weithio ar ystod eang o faterion AD strategol a gweithredol gyda gwybodaeth ragorol am y tueddiadau a'r datblygiadau yn y maes.<br><br>Gallu eithriadol i reoli pobl ac arwain ac i baratoi cyngor AD gwybodus i eraill. | Rhywfaint o wybodaeth ar y Sector Darlledu/Creadigol.<br><br>Arbenigedd annog arweinwyr ac o ddatblygu talent. |

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

| | | |
|---|---|---|
| | Partner dibynadwy a chydweithredwr sy'n gallu meithrin ymddiriedaeth a chreu perthynas gref.<br><br>Dylanwadwr o'r radd flaenaf gyda sgiliau cydweithio cryf a'r gallu i ddod â thimau gwahanol at ei gilydd i gyd-fynd ag un cynllun.<br><br>Sgiliau rheoli prosiect, dadansoddol a rheoli rhanddeiliaid cryf sy'n eich galluogi i weithio ar draws pob lefel o'r sefydliad.<br><br>Arddull creadigol ac arloesol sy'n canolbwyntio ar atebion.<br><br>Sgiliau dadansoddi cryf a'r gallu i wneud penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ddata.<br><br>Y gallu i addasu'n gyflym i dirwedd fusnes sy'n newid.<br><br>Gallu symud o feddwl strategol i weithredu ymarferol yn ddi-dor.<br><br>Y gallu i gyfathrebu ac i weithio yn effeithiol yn y Gymraeg. | |
| **Nodweddion Personol** | Angerdd dros bobl ac ymdrechu bob amser am ragoriaeth, gyda'r egni ar gyfer y filltir ychwanegol er budd ein pobl a datblygu ein busnes.<br><br>Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyflawni Strategaeth S4C.<br><br>Dealltwriaeth ac ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant.<br><br>Mae empathi, ansawdd a dod o hyd i ddatrysiadau yn eiriau sy'n disgrifio eich dull o weithio.<br><br>Lefel uchel o uniondeb personol, a fynegir drwy ymddygiad.<br><br>Hunanymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r angen i fod yn fodel rôl i eraill.<br><br>Dangos Gwerthoedd ac Ymddygiadau sy'n cyd-fynd â gwerthoedd S4C.<br><br>Parodrwydd i weithio'n hyblyg. | |

S4C

## Manylion eraill

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Mae gan S4C swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Chaernarfon ac rydym yn gweithredu polisi gweithio'n hybrid. Bydd gofyn ichi fynychu swyddfeydd eraill S4C o bryd i'w gilydd yn unol a gofynion y gwasanaeth |
| **Cyflog:** | £85,000 - £90,000 |
| **Oriau gwaith:** | 35¾ yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc. |
| **Cytundeb:** | Parhaol |
| **Cyfnod prawf:** | 6 mis |
| **Gwyliau:** | Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau gyda thâl y flwyddyn yn cynyddu i 32 diwrnod gyda hyd gwasanaeth. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau. |
| **Pensiwn:** | Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%, ond mae modd ichi gyfrannu mwy os dymunwch. |

**Buddion eraill yn cynnwys:**

Yswiriant Bywyd
Tâl salwch galwedigaethol
Cynllun Seiclo i'r gwaith
Cynllun Cynorthwyo Staff
Buddion tâl mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu

### Ceisiadau

Dylid anfon eich CV yn y lle cyntaf at ein partner recriwtio Mera Mann, o gwmni Human Resourcing e-bost: mera.mann@humanresourcing.co.uk, neu croeso ichi gysylltu gyda Mera am sgwrs.

**Dyddiad Cau: Hanner dydd 12 Medi 2024**

Byddwn yn edrych i gynnal cyfweliadau ffurfiol yng Nghanolfan Yr Egin Caerfyrddin diwedd Medi 2024.

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR